# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (Ystafelloedd Pwyllgor A/B - Canolfan Ddinesig Castell-nedd - Canolfan Ddinesig Castell-nedd)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Llun, 9 Rhagfyr 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.A.Knoyle, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, A.Jarrett, H.Jenkins, G.Nutt, D.Giles, J.Hodges, C.Furlow-Harris, C.Davies a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

1. **DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU**

Cafwyd datganiadau o fudd gan y Cynghorwyr canlynol ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd S.Rahaman | Par: Cyllid Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020/21, am ei fod yn gynrychiolydd awdurdod lleol ac yn Ysgrifennydd/Ymddiriedolwr Cymdeithas Gymunedol PDdLlE CNPT. |
| Cynghorydd S.Reynolds | Par: Cyllid Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020/21, am ei bod yn ymddiriedolwr/rheolwr dros dro ar hyn o bryd yng Nghanolfan Maerdy. Am fod ei budd yn un rhagfarnus, ymddieithriodd o'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio cysylltiedig. |

2. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 30 Hydref, 2019.

3. **<u>DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA Y CABINET (ADRODDIADAU Y CABINET YN AMGAEEDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)</u>**

Craffodd y pwyllgor yr eitemau cabinet canlynol:

<u>Indemnio Swyddogion</u>

Esboniodd swyddogion y trefniadau presennol mewn perthynas â staff ac asedau yn ystod cyfnod trosiannol y Ganolfan Adennill Deunydd ac Ynni (MREC) a oedd yn cael ei thynnu i mewn i gael ei rhedeg gan y Cyngor. Cafwyd trafodaeth hefyd am gyfarwyddiaeth Coed D'arcy Cyfyngedig, a'r cynlluniau at y dyfodol.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i'r cabinet eu hystyried.

<u>Cyllid Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020/21</u>

(Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ail-nododd y Cynghorydd S.Reynolds ei buddiannau ac ymddieithriodd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio cysylltiedig.)

Cwestiynodd y Cynghorwyr dudalen 56 o'r adroddiad a ddosbarthwyd mewn perthynas â chymorth ariannol i'r Gymdeithas Gymunedol Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig. Nodwyd na ddyfarnwyd statws elusennol i'r sefydliad yn 2019; byddai'r arian a roddwyd yn y cyfnod hwn yn cael ei dynnu ymlaen a'i ddefnyddio yn 2020/21.

Nododd y Cynghorwyr fod y trefniadau monitro'n cyd-fynd yn rhesymegol ag amserlenni'r gyllideb. Roedd angen yr adroddiadau monitro chwe misol ar bartneriaid a byddent yn darparu sicrwydd ac eglurder ac yn rhoi gwybodaeth i'r pwyllgor craffu hwn.

Trafodwyd Deddf Enillion Troseddau 2002, a gofynnodd y Cynghorwyr am adroddiad diweddaru mewn cyfarfod yn y dyfodol, a fyddai'n rhoi manylion y cymorth ariannol a oedd yn cael ei ddarparu o dan y ddeddfwriaeth hon.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i'r cabinet eu hystyried.

(Ailymunodd y Cynghorydd S.Reynolds â'r cyfarfod)

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Chwarter 2

Trafodwyd yr adroddiad a ddosbarthwyd, a nodwyd bod nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch yn cynnwys, yn rhannol, straen yn gysylltiedig â'r gwaith. Roedd staff y Cyngor wedi lleihau dros 30 y cant yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, felly roedd llwyth gwaith ar gynnydd.

Mewn perthynas â thrais yn erbyn merched, nid oedd y ddeddfwriaeth gyfredol yn unol â'r galw cynyddol am wasanaethau, ac roedd hyn wedi arwain at ddiffyg buddsoddi. Roedd cwnsela am berthnasau'n rhan o rai gwersi mewn ysgolion, ond pwysleisiwyd bod llwyth gwaith trwm eisoes gan athrawon a'u bod yn cael eu gorweithio; ni nodwyd unrhyw ddatrysiadau i ddatrys y mater hwn.

Amlygwyd bod problemau o ran cadw staff a chyflogi siaradwyr Cymraeg yn peri amser cyfartalog uchel i ateb galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Drwy gyflogi pedwar prentis modern, roedd hyn yn cael ei daclo.

Ar ôl craffu, nodwyd yr adroddiad.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 19/20**

Nododd y pwyllgor y Flaenraglen waith ar gyfer 2019/20.

**CADEIRYDD**